**E-lawlyfr 2**
**CYFLWYNIAD I SYNIADAU GWLEIDYDDOL**
Uned 3: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth
CYSYNIADAU A DAMCANIAETHAU GWLEIDYDDOL

## Adnodd 4

# *Ceidwadaeth: Ffrydiau Amrywiol*

# Llawlyfr Gwaith

# LLAWLYFR GWAITH

## TASG 1

Mae'r tabl isod yn rhestru enwau nifer o feddylwyr Ceidwadol pwysig. Gan weithio ar eich pen eich hun, neu fel rhan o grŵp, defnyddiwch y rhyngrwyd er mwyn casglu gwybodaeth ynglŷn â'r unigolion hyn.

Ar sail y wybodaeth fydd gennych, ceisiwch lunio bywgraffiad byr (e.e. dyddiadau bywyd, gwlad enedigol, manylion gyrfa ayyb) ar gyfer pob meddyliwr a hefyd crynodeb o rai o'u syniadau gwleidyddol mwyaf pwysig.

Yna, ceisiwch benderfynu i ba un o'r ffrydiau Ceidwadol gwahanol y mae pob meddyliwr yn perthyn agosaf.

| ENW | BYWGRAFFIAD BYR<br>A CHRYNODEB O SAFBWYNTIAU PWYSIG | MATH O GEIDWADAETH |
|---|---|---|
| Joseph De Maistre | | |
| Edmund Burke | | |
| Michael Oakeshott | | |
| Freidrich<br>von Hayek | | |
| Robert Nozick | | |
| Irving Cristol | | |

**TASG 2**

Gwnewch yr un peth unwaith eto gyda'r tabl isod, ond gan ganolbwyntio y tro hwn ar gyfres o *wleidyddion* Ceidwadol.

| ENW | BYWGRAFFIAD BYR<br>A CHRYNODEB O SAFBWYNTIAU PWYSIG | MATH O GEIDWADAETH |
|---|---|---|
| Benjamin Disraeli | | |
| Harold Macmillan | | |
| Ronald Reagan | | |
| Margaret Thatcher | | |
| Angela Merkel | | |

**TASG 3**

Lluniwch baragraff byr sy'n egluro beth yw rhai o'r prif syniadau a gysylltir â Cheidwadaeth Awdurdodaidd.

**TASG 4**

Yn y tabl isod nodwch bwyntiau y gellid eu cynnwys mewn traethawd byr sy'n ceisio ateb y cwestiwn canlynol:

I ba raddau y mae Ceidwadaeth Awdurdodaidd yn dal i fod yn berthnasol heddiw?

| **Mae Ceidwadaeth Awdurdodaidd yn dal i fod yn berthnasol oherwydd ...** | **Nid yw Ceidwadaeth Awdurdodaidd yn dal i fod yn berthnasol oherwydd ...** |
|---|---|
| | |

**TASG 5**

Yn ei gyfrol enwog *Reflections on the Revolution in France*, datganodd Edmund Burke: '*A state without the means of some change is without the means of its conservation*' (1790: tud 285).

Yn eich tyb chi, beth oedd Burke yn ceisio'i gyfleu gyda'r datganiad hwn?

**TASG 6**

Lluniwch baragraff estynedig sy'n cymharu a chyferbynnu'r traddodiad Prydeinig o Geidwadaeth Un Genedl â Democratiaeth Gristnogol Ewropeaidd.

**TASG 7**

Yn y tabl isod nodwch rai o'r prif syniadau â gysylltir â dwy adain wahanol y Dde Newydd – yr adain neo-ryddfrydol a'r adain neo-geidwadol.

| NODWEDDION NEORYDDFRYDIAETH | NODWEDDION NEOGEIDWADAETH |
|---|---|
| | |

**TASG 8**
Gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd gennych yn y tabl uchod, ond hefyd gan wneud ychydig o ymchwil pellach, ceisiwch lunio traethawd sy'n ateb y cwestiwn canlynol:

> I ba raddau y mae neoryddfrydiaeth a neogeidwadaeth yn draddodiadau sy'n cydweddu â'i gilydd yn daclus?

**TASG 9**

Ymchwiliwch ymhellach i'r hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol rhwng Ceidwadaeth Draddodiadol a syniadau'r Dde Newydd. Yna, ceisiwch lunio traethawd sy'n ateb y cwestiwn canlynol:

> I ba raddau roedd datblygiad y Dde Newydd yn ystod y 1970au yn dynodi toriad llwyr o syniadau Ceidwadol y blynyddoedd cynt?